Cwis y Gofalwyr Ifanc

Bwriad y cwis hwn yw iddo gael ei ddefnyddio ynghyd ag adnoddau eraill a gynhyrchwyd ar gyfer Diwrnod Ymwybyddiaeth Gofalwyr.

ymddiriedolaeth gofalwyr Cymru
gweithredu · cynorthwyo · cynghori

1. Faint o ofalwyr ifanc sydd yn y DU?
2. Ar gyfartaledd, faint o ofalwyr ifanc sydd ym mhob dosbarth?
3. Mae hyd at 80% o ofalwyr ifanc yn methu â gwneud yr hyn mae plant eraill eu hoedran yn ei wneud.
   Gwir neu Gelwydd?
4. Mae gofalwyr ifanc yn gwneud yn well na'u cyfoedion ar lefel TGAU.
   Gwir neu Gelwydd?
5. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwybod pwy yw'r gofalwyr ifanc yn eu dosbarth.
   Gwir neu Gelwydd?
6. Beth yw oedran gofalwyr ifanc ar gyfartaledd?
7. Mae gan ofalwyr ifanc hawl i asesiad gofalwr.
   Gwir neu Gelwydd?
8. Pa ganran o ofalwyr ifanc sy'n cael eu bwlio am eu bod nhw'n helpu neu'n gofalu am rywun?
9. Dydy'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc ddim am fynd i'r coleg neu'r brifysgol.
   Gwir neu Gelwydd?
10. Mae gofalwyr ifanc mor ifanc â phump oed.
    Gwir neu Gelwydd

Atebion

1. Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan y BBC yn 2010, amcangyfrifir bod 700,000 o ofalwyr ifanc yn y DU.[1]
2. Amcangyfrifir bod dau ofalwr ifanc ym mhob dosbarth.[2]
3. **Gwir.** Canfu arolwg gan Ymddiriedolaeth y Gofalwyr fod 80% o ofalwyr ifanc yn methu â chael plentyndod teilwng yn sgil eu rôl ofalu.[3]
4. **Celwydd.** Nid yw gofalwyr ifanc yn gwneud cystal yn eu TGAU â'u cyfoedion (gall ceisio cydbwyso gofalu ac addysg fod yn anodd!).[4]
5. **Celwydd.** Dangosodd arolwg fod 42% o ofalwyr ifanc yn dweud nad oedd unigolyn penodol yn yr ysgol oedd yn eu cydnabod fel gofalwr ac oedd yn eu helpu nhw.[5]
6. Oedran gofalwyr ifanc ar gyfartaledd yw 13.[6]
7. **Gwir**. Dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae gan ofalwyr ifanc hawl i asesiad. Bydd yn ystyried beth ellir ei wneud i hwyluso bywydau gofalwyr ifanc. Gweler.[7]
8. Mewn ymchwil a gynhaliwyd yn ddiweddar, gwelwyd bod chwarter (26%) y gofalwyr ifanc a holwyd yn cael eu bwlio yn yr ysgol oherwydd eu bod yn helpu neu'n gofalu am rywun.[7]
9. **Celwydd.** Dwedodd y mwyafrif (84%) mewn arolwg diweddar eu bod yn bwriadu mynd i brifysgol neu goleg.[8]
10. **Gwir.** Mae rhai gwasanaethau'n gweithio gyda gofalwyr iau rhwng 5 ac 8 oed.[9]

[1] Holodd y BBC, gyda chymorth Ymddiriedolaeth Gofalwyr y Dywysoges Frenhinol, 4,029 o ddisgyblion mewn deg ysgol uwchradd yn 2010 a chanfu fod gan 337 gyfrifoldebau gofalu.

[2] Yn dilyn arolwg yn 2010, gwnaeth y BBC frasamcan bod 700,000 o ofalwyr ifanc yn y DU. Mae hynny'n cyfateb i un o bob 12 plentyn ysgol neu ddau ymhob dosbarth.

[3] Ymddiriedolaeth y Gofalwyr (2015), *Missing Out Survey* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).

[4] Sempik, J, Becker, S (2013), *Young Adult Carers at School: Experiences and Perceptions of Caring and Education* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).

[5] Sempik, J, Becker, S (2013), *Young Adult Carers at School: Experiences and Perceptions of Caring and Education* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).

[6] Cyfrifiad 2011 (Cymru a Lloegr).

[7] Sempik, J, Becker, S (2013), *Young Adult Carers at School: Experiences and Perceptions of Caring and Education* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).

[8] Sempik, J, Becker, S (2013), *Young Adult Carers at School: Experiences and Perceptions of Caring and Education* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).

[9] Mills, P, Ashley, D, Phelps, D, Warren, S, (2015), *Supporting Young Carers Aged 5-8, a Resource for Professionals Working with Younger Carers* (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr).

Gwybodaeth

Carers.org/ycad

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1145181) ac yn yr Alban (SC042870). Cofrestrwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant yn Lloegr a Chymru rhif 7697170. Swyddfa gofrestredig: 32–36 Stryd Loman, Llundain SE1 0EH.
© Ymddiriedolaeth y Gofalwyr 2018.